

CYMRAEG



ADDYSG CYMRU  
EDUCATION WALES  
cenhadaeth ein cenedl | our national mission



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Y Gymraeg mewn addysg

Cynllun gweithredu 2017–21



# Y Gymraeg mewn addysg: Cynllun gweithredu 2017–21

## Cynulleidfa

Y gweithlu ysgolion, a'r rhai mewn lleoliadau eraill sy'n cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen; rhieni a gofalwyr; partneriaid yn y llywodraeth a phartneriaid cenedlaethol, gan gynnwys consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu, undebau gweithlu ac awdurdodau esgobaethol; sefydliadau sy'n gweithio i hybu defnydd o'r Gymraeg; sefydliadau sy'n gweithio gyda theuluoedd, plant a phobl ifanc; a phartïon eraill sydd â diddordeb.

## Trosolwg

Diben y cynllun gweithredu hwn yw gosod ein cyfeiriad ar gyfer datblygu addysg cyfrwng Cymraeg a Chymraeg dros y pedair blynedd nesaf, yn unol â'r weledigaeth yn *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr ac Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun gweithredu 2017–21*. Mae'r ddogfen yn tynnu ynghyd y camau gweithredu mewn cyhoeddiadau eraill gan Lywodraeth Cymru a rhai ein partneriaid gweithredu.

## Camau i'w cymryd

Partïon â diddordeb i nodi cynnwys y cynllun gweithredu 2017–21 hwn, a gweithredu'n unol â hynny.

## Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am y ddogfen hon at:

Y Gyfarwyddiaeth Addysg

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

e-bost: [AddysgGymraeg@llyw.cymru](mailto:AddysgGymraeg@llyw.cymru)

## Copiau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn [llyw.cymru](http://llyw.cymru)

## Dogfennau cysylltiedig

*Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol* (2017); *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun gweithredu 2017–21* (2017); *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* (2017); *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, Rhaglen waith 2017–21* (2017); *Symud Cymru Ymlaen 2016–2021* (2016); *Cwricwlwm i Gymru – cwricwlwm am oes* (2015); *Cymwys am oes: Cynllun gwella addysg ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* (2014); *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru* (2015); *Un iaith i bawb: Adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4* (2013); *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* (2010); *Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* (2016); *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: y camau nesaf* (2016)

# Cynnwys

---

Rhagair y Gweinidogion	2
Cyflwyniad	4
Cefndir	6
Y cyd-destun strategol	6
Y Gymraeg yn y system addysg yn 2017	7
Gweledigaeth	14
Egwyddorion arweiniol	14
Rolau	18
Amcanion a champau gweithredu allweddol	20
Cwricwlwm, asesu ac addysgeg	20
Cyfoethogi a phrofiadau yn y Gymraeg	22
Cynllunio'r gweithlu, dysgu proffesiynol ac arweinyddiaeth	24
Cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg	28
Rhagoriaeth, tegwch a lles	30
Amserlen y Gymraeg mewn addysg	34
Cyfathrebu ac ymgysylltu	36
Fframwaith gwerthuso ac atebolrwydd ar gyfer gwella	38
Targedau a dangosyddion	40
Camau nesaf	45

## Rhagair y Gweinidogion

---

“ Mae cenhadaeth ein cenedl o ddiwygio addysg yn ceisio codi safonau, lleihau’r bwlch cyrhaeddiad a darparu system addysg sy’n mwynhau hyder y cyhoedd ac yn ffynhonnell balchder cenedlaethol.

Mae’r iaith Gymraeg yn rhan annatod o’r diwygiadau hynny, yn ogystal ag amcanion ehangach y Llywodraeth o adeiladu cymunedau, diwylliant ac iaith gryf, a hyrwyddo a diogelu lle Cymru yn y byd.

Fel Gweinidogion Llywodraeth Cymru sydd â chyfrifoldeb am addysg cyfrwng Cymraeg ac iaith Gymraeg, rydym yn cydnabod ein rôl wrth adeiladu a sicrhau cefnogaeth bellach ar gyfer y datblygiad a thwf parhaus hwn.

Yn syml, dylai pob un o’n pobl ifanc, o bob cefndir, ddod allan o’r system addysg yn barod ac yn falch o ddefnyddio’r iaith ym mhob cyd-destun. Mae’n fater o degwch, a rhaid i ni fel Gweinidogion a Llywodraeth Cymru osod y cyfeiriad a darparu arweinyddiaeth.

Mae ein cefndiroedd teuluol a phersonol gwahanol yn cryfhau ein dealltwriaeth gyffredin bod gan bawb ran i’w chwarae wrth i ni symud ymlaen i gyflawni’r cynllun gweithredu hwn yn hyderus.

Gwyddom fod datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg dros yr hanner canrif diwethaf wedi bod yn eithriadol, yn enwedig wrth ddenu rhieni/gofalwyr a dysgwyr o gefndiroedd Cymraeg eu hiaith a di-Gymraeg. Fodd bynnag, gwyddom hefyd fod addysgu a dysgu’r Gymraeg mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg yn anghyson ac yn rhy aml yn arwain at gyrhaeddiad isel.

Mae mynd i’r afael â’r her hon, tra’n adeiladu ar lwyddiant, yn gofyn am weledigaeth a chynllun gweithredu cenedlaethol, yn unol â *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* (2017) ac *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun gweithredu 2017–21* (2017).

Mae’n gyfnod cyffrous i addysg yng Nghymru, ac mae gennym gyfle i sicrhau bod y Gymraeg yn ganolog i’n diwygiadau uchelgeisiol a hanfodol.

O baratoi’r cwricwlwm newydd i ddatblygiad proffesiynol y gweithlu addysg a diwygio’r modd yr ydym yn cefnogi ein dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, bydd sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei hystyried wrth wraidd y datblygiadau hyn yn flaenoriaeth allweddol.

Nid ydym yn dechrau o ddim, yn wir mae gennym lawer y gallwn ymfalchïo ynddo. Ond bydd angen i ni godi ein disgwyladau, ymrwymo'n llawn i briodi tegwch â rhagoriaeth a gweithio ar draws ein system addysg i gyflawni ein huchelgeisiau cytûn.

Mae'r cynllun gweithredu hwn ar gyfer y Gymraeg mewn addysg yn gosod y weledigaeth a'r cyfeiriad fel ein bod yn sicrhau bod pob dysgwr yn datblygu ei sgiliau iaith Gymraeg ac yn defnyddio'r iaith yn hyderus, trwy genhadaeth ein cenedl o ddiwygio addysg. ”



Kirsty Williams AC  
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg



Eluned Morgan AC  
Gweinidog y Gymraeg  
a Dysgu Gydol Oes



## Cyflwyniad



Diben *Y Gymraeg mewn addysg: Cynllun gweithredu 2017–21* yw gosod ein cyfeiriad ar gyfer datblygu addysg orfodol cyfrwng Cymraeg ac iaith Gymraeg dros y pedair blynedd nesaf, yn unol â gweledigaeth *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*<sup>1</sup> (2017) ac *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun gweithredu 2017–21*<sup>2</sup> (2017). Rydym yn cydnabod y rôl bwysig sydd gan y sector blynyddoedd cynnar i'w chwarae yn natblygiad sgiliau iaith Gymraeg plant. Rydym hefyd yn nodi'r angen i sicrhau dilyniant ieithyddol i addysg bellach ac uwch. Fodd bynnag,

mae manylion y cynllun gweithredu hwn yn canolbwyntio ar ddarpariaeth orfodol.

Mae llywodraethau olynol wedi cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg a'r rôl y mae'r system addysg yn ei chwarae wrth greu a meithrin siaradwyr Cymraeg. Cyhoeddwyd ein *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg*<sup>3</sup> gyntaf ar gyfer datblygu addysg cyfrwng Cymraeg yn 2010, a nododd y weledigaeth ar gyfer system addysg a hyfforddiant i alluogi pobl o bob oed i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.

<sup>1</sup> [gov.wales/topics/welshlanguage/welsh-language-strategy-and-policies/cymraeg-2050-welsh-language-strategy/?skip=1&lang=cy](http://gov.wales/topics/welshlanguage/welsh-language-strategy-and-policies/cymraeg-2050-welsh-language-strategy/?skip=1&lang=cy)

<sup>2</sup> [gov.wales/topics/educationandskills/allsectorpolicies/education-in-wales/?skip=1&lang=cy](http://gov.wales/topics/educationandskills/allsectorpolicies/education-in-wales/?skip=1&lang=cy)

<sup>3</sup> [gov.wales/docs/dcells/publications/100420welshmediumstrategy.pdf](http://gov.wales/docs/dcells/publications/100420welshmediumstrategy.pdf)

Yn 2016, gwnaethom gyhoeddi datganiad polisi interim, *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: y camau nesaf*<sup>4</sup> (2016) yn amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer datblygu addysg cyfrwng Cymraeg ac iaith Gymraeg yn ystod 2016–17, wrth i bolisi hirdymor ar gyfer yr iaith gael ei ddatblygu.

Nid dyma ddechrau'r daith; mae seiliau cadarn eisoes wedi eu gosod. Fodd bynnag, wrth i'r system addysg gychwyn ar ddiwygiadau pellgyrhaeddol, mae'n darparu'r cyfle gorau i sicrhau bod y Gymraeg wrth wraidd y datblygiadau.

Dangosodd y *Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg*<sup>5</sup>, a gyhoeddwyd yn 2016, fod cefnogaeth i weledigaeth a nodau'r strategaeth ymhlith swyddogion (cenedlaethol a lleol) a oedd yn gyfrifol am ei chyflawni, ac ymhlith rhanddeiliaid ac ymarferwyr. Roedd y ffaith bod gweledigaeth genedlaethol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg a Chymraeg wedi ei ffurfioli a'i chyhoeddi wedi bod yn ddefnyddiol i rai sefydliadau ac

unigolion wrth gynllunio'r modd y caiff addysg cyfrwng Cymraeg ei chefnogi. Fodd bynnag, awgrymodd y dystiolaeth hefyd nad oedd gweledigaeth y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg wedi ei gwreiddio mewn ffordd gyson ymhlith yr holl bartneriaid gweithredu nac ar draws haenau gwahanol o'r system addysg, o Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol a darparwyr.

Rydym am sicrhau bod cefnogaeth eang i'n gweledigaeth ar gyfer datblygiad a thwf parhaus addysg cyfrwng Cymraeg ac iaith Gymraeg. Gwnaethom ofyn am gyngor a barn ein partneriaid a'n rhanddeiliaid allweddol wrth ddatblygu'r cynllun gweithredu hwn; ein gobaith nawr yw y bydd gan bob un ran i'w chwarae i gyflawni'r cynllun gweithredu.

Mae heriau o'n blaenau ond dros y pedair blynedd nesaf ein prif nod yw sicrhau bod yr arweinyddiaeth ofynnol, y capasiti a'r seilwaith i gyflawni'r newidiadau wedi'u hymgorffori er mwyn symud ymlaen gyda'r gwaith pwysig hwn ar gyfer cenedlaethau i ddod.

<sup>4</sup> [gov.wales/docs/dcells/publications/160309-next-steps-cy.pdf](http://gov.wales/docs/dcells/publications/160309-next-steps-cy.pdf)

<sup>5</sup> [gov.wales/statistics-and-research/welsh-medium-education-strategy/?skip=1&lang=cy](http://gov.wales/statistics-and-research/welsh-medium-education-strategy/?skip=1&lang=cy)

## Cefndir

### Y cyd-destun strategol

Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn meddwl am strategaeth a chynllunio hirdymor. Un o'r saith nod yw Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, ac un o'r dangosyddion yw canran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg.

Fel un o'r cyrff cyhoeddus allweddol yng Nghymru, mae'n ofynnol i ni fel Llywodraeth Cymru gynllunio ar gyfer yr hirdymor. Noda *Symud Cymru Ymlaen 2016–21*<sup>6</sup> (2016), ein rhaglen lywodraethu y byddwn yn 'gweithio tuag at sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050'. Mae hefyd yn ein hymrwymo i 'ailwampio dysgu Cymraeg yn ein hysgolion i alluogi pobl ifanc i ddefnyddio'u sgiliau iaith Gymraeg yn y gymdeithas ehangach'. Mae *Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol*<sup>7</sup>, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2017, yn rhoi ymrwymadau allweddol y rhaglen lywodraethu mewn cyd-destun tymor hwy ac yn nodi sut y byddant yn cyd-fynd â gwaith y gwasanaeth cyhoeddus ehangach yng Nghymru. Mae sicrhau y bydd pob dysgwr yn gallu defnyddio'r Gymraeg pan fydd yn gadael yr ysgol, a bod gennym ddigon o athrawon i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn ymrwymadau hirdymor, a fydd yn galw am gynllunio strategol gyda'n partneriaid cyflawni allweddol.

Cyhoeddwyd *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* ym mis Gorffennaf 2017, ac mae'n nodi'r weledigaeth hirdymor ar gyfer y Gymraeg. Mae cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn un o dair thema allweddol, a bydd angen gwneud y newidiadau trawsnewidiol allweddol canlynol o fewn y sector addysg er mwyn cyflawni'r weledigaeth.

- Cynyddu cyfran pob grŵp blwyddyn ysgol sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg o 22 y cant (yn seiliedig ar 7,700 o ddysgwyr saith mlwydd oed yn 2015/16) i 30 y cant (tua 10,500 ym mhob grŵp blwyddyn) erbyn 2031, ac yna 40 y cant (tua 14,000 ym mhob grŵp blwyddyn) erbyn 2050.
- Trawsnewid y ffordd rydym yn addysgu Cymraeg i bob dysgwr er mwyn sicrhau, erbyn 2050, fod o leiaf 70 y cant o'r dysgwyr hynny yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg pan fyddant yn gadael yr ysgol.
- Cynyddu nifer yr athrawon cynradd a all addysgu yn Gymraeg o 2,900 i 3,900 erbyn 2031 a 5,200 erbyn 2050; cynyddu nifer yr athrawon uwchradd a all addysgu Cymraeg o 500 i 900 erbyn 2031 a 1,200 erbyn 2050; a chynyddu nifer yr athrawon uwchradd a all addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o 1,800 i 3,200 erbyn 2031 a 4,200 erbyn 2050.

<sup>6</sup> [gov.wales/docs/strategies/160920-taking-wales-forward-cy.pdf](http://gov.wales/docs/strategies/160920-taking-wales-forward-cy.pdf)

<sup>7</sup> [gov.wales/docs/strategies/170919-prosperity-for-all-cy.pdf](http://gov.wales/docs/strategies/170919-prosperity-for-all-cy.pdf)



Mae *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun gweithredu 2017–21*, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2017, yn nodi'r camau i'w cymryd i weithredu diwygiadau pellgyrhaeddol i'r system addysg yng Nghymru. Y nod yw sicrhau bod pob dysgwr yn elwa ar gwricwlwm o'r radd flaenaf a'u bod yn mwynhau dysgu ac addysgu sy'n eu hysbrydoli i lwyddo mewn cymuned addysg gydweithredol ac arloesol a gaiff ei harwain yn effeithiol. Mae datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a gwella addysgu a dysgu Cymraeg i bob dysgwr wrth wraidd y diwygiadau hyn.

## Y Gymraeg yn y system addysg yn 2017

Mae Strategaeth Cymraeg 2050 yn cydnabod bod gan y sector addysg gyfraniad allweddol i'w wneud er mwyn cyflawni ein gweledigaeth o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg. Fel y nodwyd yn gynharach, nid ydym yn dechrau o ddim; rydym yn adeiladu ar sylfaen gadarn o addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg ac iaith Gymraeg a ddatblygodd yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif.

Ers cyhoeddi'r *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* yn 2010, rydym wedi symud ymlaen gyda nifer o ddatblygiadau i gynyddu addysg cyfrwng Cymraeg, a gwella sgiliau Cymraeg ein dysgwyr.

Un o brif nodau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg oedd gwella'r ffordd y caiff addysg cyfrwng Cymraeg ei chynllunio. Cyflwynodd Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ofyniad i awdurdodau lleol baratoi Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg, yn nodi sut y byddant yn gwella'r ffordd y caiff addysg ei chynllunio drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Ers i'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg cyntaf gael eu datblygu yn 2014, cafwyd sawl adolygiad annibynnol o'r cynlluniau a'r prosesau cysylltiedig. Canfu gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn 2016 fod gosod Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar sail statudol wedi rhoi fframwaith strwythuredig a mwy cyson i awdurdodau lleol ar gyfer cynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, nododd y gwerthusiad hefyd nad oedd prosesau cynllunio bob amser yn amserol nac yn effeithiol, a'u bod yn dibynnu ar y dull a fabwysiadwyd gan unigolion allweddol. Mae'r dystiolaeth hefyd yn rhoi darlun cymysg mewn perthynas â newidiadau i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr ag ADY. Er bod rhai enghreifftiau lle mae cymorth arbenigol wedi cael ei ddatblygu, gyda rhai awdurdodau lleol yn blaengynllunio er mwyn cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg arbenigol, mewn ardaloedd eraill roedd enghreifftiau o ddiffyg capasiti i gefnogi dysgwyr ag ADY.

Cynhaliwyd yr adolygiad diweddaraf o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg gan Aled Roberts a gyhoeddodd ei *Adolygiad brys o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg – 2017–20*<sup>8</sup> ym mis Awst 2017. Canfu'r adolygiad brys, er bod y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid yn cydnabod bod y system addysg yn chwarae rôl allweddol wrth greu siaradwyr Cymraeg y dyfodol, nad oedd Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg drafft 2017–20 a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2016 yn cynnwys yr uchelgais yr oedd ei angen i gyflawni'r weledigaeth a nodir yn Strategaeth Cymraeg 2050. Yn ogystal â darparu adolygiad o Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg pob awdurdod lleol, gwnaeth Aled Roberts 18 o argymhellion a oedd yn cynnwys:

- sefydlu bwrdd i drafod a phwyso a mesur y newidiadau sydd eu hangen i'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau
- adolygu amserlen Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg i gyd-fynd â rhaglenni cyfalaf Llywodraeth Cymru
- cryfhau'r berthynas strategol rhwng llywodraeth leol a Mudiad Meithrin er mwyn sicrhau twf ar lefel pob awdurdod lleol
- cynllunio a gweithredu brys er mwyn cynyddu nifer yr athrawon sydd yn cael eu hyfforddi i addysgu yn y Gymraeg.

Heddiw, mae 420 o ysgolion cynradd yn darparu addysg cyfrwng Cymraeg i bron 67,000 o ddysgwyr ledled Cymru, ac mae 49 o ysgolion uwchradd yn darparu addysg cyfrwng Cymraeg i bron 35,000 o ddysgwyr. Bydd y targed heriol a osodwyd yn Strategaeth Cymraeg 2050 yn ei gwneud yn ofynnol i ni gydweithio'n agos â darparwyr blynyddoedd cynnar ac awdurdodau lleol i wella cynllunio hirdymor ar gyfer lleoedd ysgol cyfrwng Cymraeg a sicrhau bod cyfleoedd i ddysgwyr fanteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg ar adegau amrywiol a'u bod yn parhau i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ôl-16.

Ffocws arall y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg oedd cefnogi dysgwyr o bob cefndir ieithyddol i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Mae ysgolion cyfrwng Cymraeg fel arfer yn darparu'r rhan fwyaf o'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg, a chaiff dysgwyr eu trochi yn yr iaith o oedran cynnar. Gall ysgolion dwyieithog gyfeirio at ystod eang o leoliadau addysgu a dysgu sy'n cynnwys defnydd amrywiol o'r Gymraeg yn y ddarpariaeth. Fel arfer, mae ysgolion cyfrwng Saesneg ond yn cynnig Cymraeg fel pwnc gyda gweddill amser y cwricwlwm yn cael ei dreulio drwy gyfrwng y Saesneg. O ganlyniad, bydd natur y ddarpariaeth yn effeithio ar faint o Gymraeg y bydd dysgwyr yn ei chaffael.

<sup>8</sup> [gov.wales/docs/dcells/publications/170804-rapid-review-of-wesp-cy.pdf](http://gov.wales/docs/dcells/publications/170804-rapid-review-of-wesp-cy.pdf)



Nododd y gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn 2016 fod canran y dysgwyr a oedd yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn y Gymraeg yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 wedi cynyddu ers 2010. Roedd yr ymatebwyr yn teimlo bod y pwyslais cenedlaethol ar y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLIRh) a'r ffocws ar godi safonau yn fwy cyffredinol, wedi hyrwyddo cyrhaeddiad a safonau yn y Gymraeg.

Fodd bynnag, fel y nododd y gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, mae'r dystiolaeth ynghylch safonau mewn Cymraeg ail iaith yn creu darlun cymysg. Mae adroddiadau blynyddol Estyn wedi bod yn feirniadol o'r safonau mewn Cymraeg ail iaith yng Nghyfnod Allweddol 2 ers nifer o flynyddoedd, er bod safonau yng Nghyfnod Allweddol 3 wedi dangos ychydig o welliant dros y blynyddoedd diwethaf. Daeth adolygiad annibynnol o Gymraeg ail iaith yn 2013 *Un iaith i bawb: Adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4*<sup>9</sup>, i'r casgliad ei bod yn 'unfed awr ar ddeg i Gymraeg ail iaith'. Un o argymhellion yr adolygiad oedd y dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio'r cwricwlwm i gynnwys 'un continwmm o ddysgu Cymraeg, ynghyd â disgwyliadau clir ar gyfer disgyblion sy'n dysgu Cymraeg mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg, cyfrwng Cymraeg a lleoliadau dwyieithog'.

Yn 2014, comisiynom adolygiad sylfaenol o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru. Cyhoeddwyd *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*<sup>10</sup>, ym mis Chwefror 2015, a daeth i'r casgliad y dylai'r Gymraeg barhau i fod yn orfodol hyd at 16 oed ac y 'dylai ysgolion ganolbwyntio o'r newydd ar ddysgu Cymraeg yn bennaf fel ffordd o gyfathrebu'. Derbyniom argymhellion yr adolygiad a chytunom y byddai continwmm dysgu Cymraeg yn cael ei ddatblygu fel rhan o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd i Gymru. Bydd y continwmm hwn yn sail ar gyfer addysgu a dysgu Cymraeg ac ieithoedd eraill yn y dyfodol.

Mae datblygu sgiliau Cymraeg ein hymarferwyr a'r gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol i alluogi'r sector cyfrwng Cymraeg i barhau i dyfu, ac i wella'r broses o addysgu a dysgu'r Gymraeg fel pwnc. Dros y blynyddoedd diwethaf, bu'r ffocws ar sicrhau bod gan y gweithlu sgiliau Cymraeg lefel uchel er mwyn gallu cyflwyno'r Gymraeg fel pwnc yn y cwricwlwm. Cynigiwyd hyfforddiant yn bennaf drwy'r consortia rhanbarthol drwy'r Grant Gwella Addysg a thrwy'r Cynllun Sabothol iaith Gymraeg ar gyfer ymarferwyr.

Yn 2014, canfu *Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Adolygiad o'r Cynllun Sabothol iaith Gymraeg ar gyfer ymarferwyr addysgol: profiad cyfranogwy 2011-2012*<sup>11</sup> farn gadarnhaol am y

<sup>9</sup> [gov.wales/topics/educationandskills/publications/wagreviews/one-language-for-all/?skip=1&lang=cy](http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/wagreviews/one-language-for-all/?skip=1&lang=cy)

<sup>10</sup> [gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-cy.pdf](http://gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-cy.pdf)

<sup>11</sup> [gov.wales/docs/caecd/research/2014/140127-review-welsh-language-sabbatical-scheme-educational-practitioners-participant-experiences-2011-2012-cy.pdf](http://gov.wales/docs/caecd/research/2014/140127-review-welsh-language-sabbatical-scheme-educational-practitioners-participant-experiences-2011-2012-cy.pdf)

Cynllun Sabothol ymhlith cyfranogwyr a rhanddeiliaid. Nododd cyfranogwyr eu bod yn defnyddio eu sgiliau Cymraeg yn fwy hyderus, ac roedd gan bawb a gyfrannodd at yr adolygiad farn gadarnhaol am ansawdd a natur y cyrsiau a ddarparwyd. Nododd yr adolygiad hefyd yr angen i gynllunio a darparu'r rhaglen mewn ffordd fwy strategol a phenodol, ac i fynd i'r afael â'r cymorth a ddarparwyd i gyfranogwyr ar ôl i'r cwrs ddod i ben. Fodd bynnag, y brif neges gan bawb a gyfrannodd at yr adolygiad (cyfranogwyr, awdurdodau lleol ac uwch reolwyr) oedd bod y Cynllun Sabothol yn gynllun gwerthfawr a bod angen rhagor o gyrsiau o'r fath. Ymddengys fod hyn yn deillio o ganfyddiad ymhlith uwch reolwyr, cyfranogwyr a swyddogion awdurdodau lleol fod prinder sgiliau Cymraeg yn parhau i fod yn broblem a bod angen rhoi sylw i hyn.

Mae'r cyflenwad o athrawon ar gyfer y sector cyfrwng Cymraeg yn parhau i fod yn achos pryder. Canfu'r gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg nad oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod y strategaeth wedi cyfrannu'n sylweddol at fàs critigol y gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, gwnaeth cynrychiolwyr o sefydliadau addysg ac athrawon cenedlaethol a gyfrannodd at y gwerthusiad gydnabod pwysigrwydd y cymelldaliadau er mwyn helpu athrawon y dyfodol i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn 2015, cyflwynodd yr Athro John Furlong ei opsiynau ar gyfer dyfodol addysg gychwynnol i athrawon yng Nghymru yn *Addysgu Athrawon Yfory: Opsiynau ynglŷn â dyfodol addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru*<sup>12</sup>. Mae'r newidiadau i addysg gychwynnol i athrawon yn gyfle i adolygu'r rhaglenni a'r cymhellion cyfredol sy'n ategu'r gwaith o ddatblygu athrawon Cymraeg ac athrawon cyfrwng Cymraeg er mwyn sicrhau y gallwn feithrin gallu yn y gweithlu addysg yn y dyfodol.

Mae'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth<sup>13</sup> newydd, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2017, yn cydnabod bod angen i bob ymarferydd barhau i ddatblygu ei sgiliau Cymraeg a bod pob arweinydd addysg yn pwysleisio'r angen i hyrwyddo diwylliant Cymru a'r Gymraeg yn gyson o fewn ethos yr ysgol ac wrth iddynt ddatblygu'r ysgol fel sefydliad sy'n dysgu.

Prif feysydd y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg oedd cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg, addysgu a dysgu'r Gymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg, a datblygu'r gweithlu. Fodd bynnag, cydnabu'r strategaeth hefyd y byddai angen i'r gwaith o ddatblygu'r Gymraeg yn ein system addysg gael ei ategu gan ddatblygiad adnoddau addysgu a dysgu Cymraeg, ac y byddai angen i bob un o'n dysgwyr gydnabod bod y Gymraeg yn ymestyn y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth i'r gymuned ac i'r gweithle.

<sup>12</sup> [gov.wales/docs/dcells/publications/150309-teaching-tomorrows-teachers-cy.pdf](http://gov.wales/docs/dcells/publications/150309-teaching-tomorrows-teachers-cy.pdf)

<sup>13</sup> [learning.gov.wales/resources/collections/professional-standards?lang=cy](http://learning.gov.wales/resources/collections/professional-standards?lang=cy)

Canfu *Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Adolygiad o Ddefnydd ac Ansawdd yr Adnoddau a Gomisiynwyd gan Uned y Gymraeg mewn Addysg, Llywodraeth Cymru*<sup>14</sup> (2014) er bod rhaglen gomisiynu adnoddau Llywodraeth Cymru yn gwneud cyfraniad gwerthfawr, fod yr ystod gyfyngedig o adnoddau mewn nifer o feysydd yn parhau i fod yn broblem i benaethiaid ac ymarferwyr, a bod ymarferwyr yn y sector cyfrwng Cymraeg yn dal i wynebu llwyth gwaith ychwanegol wrth baratoi adnoddau cyfrwng Cymraeg i lenwi bylchau.

Ni all addysg a hyfforddiant yn unig warantu y daw siaradwyr yn rhugl yn Gymraeg, nac ychwaith y byddant yn dewis defnyddio'r iaith yn eu bywyd bob dydd. Fodd bynnag, fel y nodwyd

yn y gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, mae'n amlwg bod y system addysg yn dylanwadu ar botensial pobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda chonsortia rhanbarthol, wedi adeiladu ar y Siarter Iaith Gymraeg, a ddatblygwyd gan Gyngor Gwynedd, a'r prosiect Cefnogi Arferion Iaith i ddarparu dull ysgol gyfan o ehangu defnydd plant a phobl ifanc o'r iaith. Gyda phlant a phobl ifanc wrth wraidd y broses, mae ysgolion yn datblygu eu cynlluniau unigol mewn partneriaeth â'r gymuned ysgol ehangach. Bydd y rhaglen hon yn sail i'r modd rydym yn symud ymlaen i hyrwyddo a helpu plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r iaith.



<sup>14</sup> [gov.wales/docs/caecd/research/2014/140716-welsh-medium-education-strategy-review-use-quality-resources-cy.pdf](http://gov.wales/docs/caecd/research/2014/140716-welsh-medium-education-strategy-review-use-quality-resources-cy.pdf)

Mae'n bwysig dathlu'r camau cadarnhaol a gymerwyd dros y saith mlynedd diwethaf i gefnogi datblygiad addysg Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg. I grynhoi, mae rhai o'r datblygiadau allweddol ers 2010 yn cynnwys:

- rhoi Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol ar sail statudol
- ehangu'r Cynllun Sabothol iaith Gymraeg i ymarferwyr i gynnwys staff cynorthwyol a chyrsgiau ar lefelau amrywiol
- comisiynu tua 435 o brosiectau i ddatblygu adnoddau addysgu a dysgu gyda sicrwydd ansawdd mewn 38 o feysydd pwnc
- darparu cyllid i awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i godi safonau wrth addysgu a dysgu'r Gymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg
- cefnogi athrawon dan hyfforddiant i fod yn fwy hyderus a gwella eu sgiliau iaith i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a gweithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gyflwyno'r Dystysgrif Sgiliau Cymraeg
- cynnal ymchwil i gael dealltwriaeth fanylach o'r modd y darperir addysg drochi
- ehangu ein cefnogaeth i hyrwyddo a chynyddu defnydd plant a phobl ifanc o'r Gymraeg yn yr ysgol ac mewn cyd-destunau cymdeithasol drwy'r Siarter Iaith Gymraeg, a ddatblygwyd gan Gyngor Gwynedd, a phrosiectau i gefnogi ysgolion uwchradd, mewn partneriaeth â'r consortia rhanbarthol a'r Urdd.

Rydym wedi dysgu gwersi ar hyd y ffordd, a byddwn yn parhau i sicrhau bod ein datblygiadau yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn arwain at newidiadau ar bob lefel o'r system wrth i ni symud ymlaen.

# Gweledigaeth

Ein gweledigaeth yw galluogi pob dysgwr i ddatblygu ei sgiliau Cymraeg a defnyddio'r iaith yn hyderus yn ei fywyd bob dydd.

Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon, rhaid i ni sicrhau bod pob dysgwr yn cael budd o gwricwlwm o'r radd flaenaf a'i fod yn mwynhau dysgu ac addysgu sy'n ei ysbrydoli i lwyddo mewn cymuned addysg gydweithredol ac arloesol, wedi ei chynllunio'n strategol a'i harwain yn effeithiol.

## Egwyddorion arweiniol

Er mwyn cyflawni'r weledigaeth, bydd angen sawl cam gweithredu arnom i greu darpariaeth gynaliadwy ar gyfer cenedlaethau i ddod. Bwriedir i'r egwyddorion canlynol feithrin dealltwriaeth gyffredin o rôl addysgu a dysgu Cymraeg, a thrwy gyfrwng y Gymraeg, ym mhob ysgol yng Nghymru a darparu sail ar gyfer datblygiadau polisi yn y dyfodol.

### 1. Cydnabyddir a gwerthfawrogir bod addysgu a dysgu'r Gymraeg yn rhan annatod o system addysg Cymru o'r blynyddoedd cynnar hyd at ddarpariaeth ôl-orfodol.

Cyflwynwyd y Gymraeg yn y cwricwlwm cenedlaethol yn dilyn Deddf Diwygio Addysg 1988, a daeth yn bwnc gorfodol i bob dysgwr yng Nghymru yng Nghyfnodau

Allweddol 1, 2 a 3 yn 1990. O fis Medi 1999 daeth y Gymraeg yn orfodol i bob dysgwr ledled Cymru yng Nghyfnod Allweddol 4. Ni fydd hyn yn newid ac, yn y dyfodol, rhoddir mwy o bwys ar y Gymraeg fel pwnc ac fel cyfrwng i addysgu a dysgu. Bydd cwricwlwm newydd a fydd yn ymgorffori fframwaith ar gyfer datblygu sgiliau ar hyd continwwm, capasiti gwell o ran athrawon, ac ymchwil i addysgeg effeithiol yn llywio addysgu a dysgu. Bydd cyfathrebu â rhieni a gofalwyr ynghylch manteision dysgu'r iaith a sut y gallant helpu eu plant yn hanfodol.

### 2. Drwy'r cwricwlwm newydd bydd pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru yn ddysgwyr uchelgeisiol a galluog sy'n gallu cyfathrebu'n effeithiol mewn gwahanol ffurfiau a lleoliadau, a thrwy lwyfannau digidol, drwy'r Gymraeg a'r Saesneg.

Wrth gefnogi un o bedwar diben craidd y cwricwlwm yng Nghymru, y nod yw sicrhau bod gan ddysgwyr lwybrau priodol i ddysgu Cymraeg er mwyn eu galluogi i ddod yn ddigon hyderus i ddefnyddio'r iaith yn eu bywyd bob dydd. Byddant yn cael cyfleoedd i ddysgu Cymraeg yn y cwricwlwm, y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth ac ar lwyfannau digidol fel eu bod yn gwerthfawrogi ei defnyddioldeb o ran cyfathrebu mewn Cymru ddwyieithog.



**3. Gall dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg atgyfnerthu'r broses o ddysgu'r Gymraeg a galluogi plant a phobl ifanc i ddatblygu eu hyder i ddefnyddio'r iaith mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau.**

Mae addysg cyfrwng Cymraeg yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu hyfedredd yn y Gymraeg, yn ogystal â'r Saesneg. Bydd hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg – ar draws y cwricwlwm ac mewn gweithgareddau allgyrsiol – gyda dilyniant ieithyddol wedi'i gynllunio ar hyd pob cyfnod o addysg, o'r blynyddoedd cynnar, yn cynnig cyfleoedd i bob plentyn a pherson ifanc ddod yn gwbl ddwyieithog.

**4. Mae pob ymarferydd ac arweinydd yn datblygu eu sgiliau Cymraeg a hefyd eu dealltwriaeth ehangach o'r Gymraeg yn ei chyd-destun hanesyddol a diwylliannol.**

Mae'n hanfodol bod pob ymarferydd ac arweinydd yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i ddatblygu gwerthfawrogiad ein plant a'n pobl ifanc o'r Gymraeg, ei llenyddiaeth a'i hanes, a hefyd ei pherthnasedd i'w bywyd bob dydd yn y Gymru gyfoes ac mewn cyflogaeth yn y dyfodol. Bydd gan ymarferwyr ac arweinwyr fwy o gyfleoedd i wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth eu hunain, a rhannu hyn â'u dysgwyr.

**5. Mae ymchwil i gaffael iaith, dwyieithrwydd ac addysgu Cymraeg effeithiol yn llywio'r addysgu a'r dysgu.**

Yn y dyfodol, bydd cynllunio'r cwricwlwm ac addysgeg yn cael eu llywio'n fwy gan ymchwil a thystiolaeth am addysgu a dysgu iaith yn effeithiol, gan gynnwys dulliau trochi iaith, a rôl dwyieithrwydd wrth gefnogi aml-lythrennedd a datblygiad ieithyddol a gwybyddol dysgwyr.

**6. Wrth ddatblygu eu sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg, gall plant a phobl ifanc ddatblygu sylfaen ar gyfer dysgu ieithoedd ychwanegol, yn barod i fod yn ddinasyddion ar gyfer Cymru a'r byd.**

Gall galluogi plant a phobl ifanc i ddatblygu eu hyfedredd yn y Gymraeg a'r Saesneg ddarparu sail ar gyfer dysgu ieithoedd ychwanegol ac ar gyfer dysgu am ddiwylliannau eraill. Mae cynnwys pob iaith mewn un Maes Dysgu a Phrofiad o fewn y cwricwlwm newydd yn gyfle i wneud cysylltiadau rhwng ieithoedd a galluogi dysgwyr i fanteisio i'r eithaf ar eu holl adnoddau ieithyddol.





## Rolau

---

Fel y nodwyd yn *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun gweithredu 2017–21*, i gyflawni ein diwygiadau ym mhob rhan o'r system, bydd angen ymrwymiad bwriadus i gydweithio'n effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys Llywodraeth Cymru, y proffesiwn addysgu a'r gweithlu addysg ehangach. Er mwyn rhoi'r cynllun gweithredu hwn ar waith yn llwyddiannus, bydd angen ymgysylltu effeithiol a gonest rhwng pob agwedd ar y system addysg. Rydym yn ymrwymedig i ddarparu'r amodau a fydd yn galluogi hyn i ddigwydd.

### Llywodraeth Cymru

- Datblygu polisi cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg mewn addysg.
- Ymgysylltu â phob rhanddeiliad i gefnogi'r gwaith o gynllunio'r gweithlu, datblygu capasiti a gweithredu.
- Sicrhau sail ddeddfwriaethol ar gyfer addysgu a dysgu'r Gymraeg a chynllunio lleoedd ysgol cyfrwng Cymraeg.
- Gweithio gyda rhanddeiliaid i gynyddu capasiti o ran ymchwil a chynnal rhaglen ymchwil i ddarparu sail ar gyfer datblygu'r continwmm iaith ac arfer gorau o ran addysgeg effeithiol.
- Cynnal gweithgarwch cyfathrebu i wella ymwybyddiaeth o werth y Gymraeg fel sgil gydol oes, ac o'r gefnogaeth sydd ar gael i ysgolion ac ymarferwyr.
- Sicrhau bod datblygiad y Gymraeg yn ein system addysg yn cael ei gynnwys fel rhan ganolog o'r fframwaith asesu a gwerthuso newydd ar gyfer datblygu a gwella pob rhan o'r system.
- Darparu digon o adnoddau.

### Consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, Estyn, Cymwysterau Cymru, Cyngor y Gweithlu Addysg, sefydliadau dyfarnu ac addysg uwch

- Defnyddio eu gwybodaeth am ysgolion ac ymchwil i hwyluso a chefnogi'r broses o rannu arfer gorau ac adnoddau, a chydweithio i wella sgiliau iaith Gymraeg dysgwyr, o fewn system hunanwella i ysgolion.
- Cynllunio lleoedd ysgol yn strategol ac yn yr hirdymor i gynyddu nifer y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, gan gynnwys cynyddu cyfran yr addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion.
- Cynnal gwaith cynllunio'r gweithlu yn rhanbarthol i ddatblygu sgiliau ieithyddol ymarferwyr a'u gallu i addysgu Cymraeg neu drwy gyfrwng y Gymraeg a hyrwyddo cyfleoedd gyrfa yn y sector hwn.
- Darparu cyfleoedd i athrawon dan hyfforddiant ddatblygu eu sgiliau Cymraeg fel rhan o addysg gychwynnol i athrawon.

- Cynnal rhaglen genedlaethol a rhanbarthol o ddysgu proffesiynol i ddatblygu sgiliau Cymraeg ymarferwyr a'u harbenigedd wrth addysgu Cymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg.
- Sicrhau bod digon o arweinyddwr ar gael ar gyfer y sector cyfrwng Cymraeg.
- Sicrhau bod pob arweinydd yn meddu ar y sgiliau i gynllunio datblygiad y Gymraeg yn strategol.
- Cydweithio er mwyn cynyddu'r gallu i ymchwilio a chynnal rhaglen ymchwil i gefnogi addysgu a dysgu'r Gymraeg a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog.
- Rhannu arfer da o ran addysgeg effeithiol ar gyfer dysgu ac addysgu'r Gymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg.
- Datblygu cymwysterau newydd ar gyfer asesu sgiliau Cymraeg dysgwyr ar hyd continwmm.

### Ysgolion, ymarferwyr, llywodraethwyr a rhieni/gofalwyr

- Sicrhau bod y Gymraeg wrth wraidd ethos a datblygiad strategol yr ysgol yng nghynllun datblygu'r ysgol.
- Cyflwyno cwricwlwm Cymraeg newydd a fydd yn galluogi pob dysgwr i ddod yn siaradwr Cymraeg hyderus.
- Ymdrechu'n barhaus i wella addysgu a dysgu'r Gymraeg a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, ar sail y dystiolaeth am addysgeg effeithiol ac ymchwil weithredol.
- Datblygu ffordd o gynyddu addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion.
- Pob ymarferydd i ymdrechu'n barhaus i ddatblygu ei sgiliau Cymraeg ei hun yn unol â'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth.
- Sicrhau bod pob dysgwr a rhieni/gofalwyr yn deall gwerth y Gymraeg o ran ymdeimlad o hunaniaeth Gymreig ac fel sgil, a bod cyfleoedd gan ddysgwyr i ddefnyddio'r iaith yn anffurfiol y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

# Amcanion a chymau gweithredu allweddol

---

## Cwricwlwm, asesu ac addysgeg

Mae datblygu cwricwlwm newydd a fydd yn ysbrydoli dysgwyr i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn hanfodol i wireddu ein gweledigaeth ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae angen i ni hefyd sicrhau y gallant fesur eu cynnydd ar hyd y ffordd er mwyn parhau i'w hysgogi, a sicrhau bod yr addysgu a'r dysgu yn seiliedig ar ddealltwriaeth athrawon o'r addysgeg caffael iaith fwyaf effeithiol.

Byddwn yn cydweithio â phartneriaid allweddol er mwyn sicrhau y bydd pob dysgwr yn:

- cael budd o addysgu a dysgu ysbrydoledig i ddod yn siaradwr Cymraeg hyderus sy'n gallu defnyddio'r iaith yn ei fywyd bob dydd a gweld gwerth dysgu'r Gymraeg
- gallu manteisio ar gwricwlwm lleol priodol o fewn fframwaith cenedlaethol clir o ddisgwyliad a chefnogaeth
- gallu mesur ei gynnydd wrth ddatblygu ei sgiliau yn y Gymraeg ar hyd continwwm
- ennill cymwysterau priodol a chydabyddiaeth am ei ddysgu
- cael budd o amrywiaeth o adnoddau addysgu a dysgu a fydd yn hwyluso ei ddysgu yn y Gymraeg a'r Saesneg
- datblygu ei ddealltwriaeth o ddwyieithrwydd a'r Gymraeg yn ei chyd-destun hanesyddol a diwylliannol.

Hyd yma, rydym wedi:

- sefydlu grŵp y Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu mewn partneriaeth â chonsortia rhanbarthol, sy'n cynnwys ysgolion arloesi a rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu'r cwricwlwm newydd
- comisiynu ymchwil i wella ein dealltwriaeth o ymagweddau a dulliau a ddefnyddir wrth ddysgu iaith, ac ymchwil i ddeall sut y caiff y ddarpariaeth drochi ei chyflwyno ar hyn o bryd ledled Cymru, a sut y gellir cynllunio'r ddarpariaeth hon ar gyfer y dyfodol
- gweithio gyda Chymwysterau Cymru i ddatblygu ein syniadau am gymwysterau ar gyfer y Gymraeg yn y dyfodol
- cynnal uwchgynhadledd gyda rhanddeiliaid allweddol i ystyried sut y gallwn sicrhau y bydd adnoddau addysgu a dysgu ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ar yr un pryd i gefnogi'r cwricwlwm newydd.

### I roi ein cynllun ar waith, byddwn yn gwneud y canlynol.

<ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu'r Maes Dysgu a Phrofiad leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu i gynnwys un continwwm ar gyfer addysgu a dysgu ieithoedd, gan gynnwys y Gymraeg.</li> </ul>	<p>Ar gael ar gyfer adborth erbyn Ebrill 2019</p> <hr/> <p>Y cwricwlwm terfynol ar gael erbyn mis Ionawr 2020</p>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu llwybrau dilyniant clir ar hyd y continwwm ieithoedd o'r blynyddoedd cynnar hyd at addysg a hyfforddiant statudol ac ôl-orfodol i hwyluso dilyniant.</li> </ul>	<p>Ar gael erbyn Ebrill 2019</p>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Gwella ein dealltwriaeth o ddulliau i asesu dysgu iaith a chymwysterau iaith, er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu cyfres o gymwysterau Cymraeg.</li> </ul>	<p>Ymchwil wedi ei chwblhau erbyn 2020</p> <hr/> <p>Datblygu cymwysterau newydd o 2020</p>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau bod adnoddau addysgu a dysgu i gefnogi'r cwricwlwm ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ar yr un pryd.</li> </ul>	<p>I'w ddatblygu wrth i'r cwricwlwm ddod ar gael o Ebrill 2019</p>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Gweithio gyda Chymwysterau Cymru, sefydliadau dyfarnu a chyhoeddwy'r i sicrhau bod adnoddau cyfrwng Cymraeg ar gael i gefnogi'r gwaith o gyflwyno a darparu cymwysterau newydd.</li> </ul>	<p>Yn barhaus 2017–21</p>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau sail ymchwil gadarn yn seiliedig ar addysgeg effeithiol ar gyfer addysgu a dysgu'r Gymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg.</li> </ul>	<p>Yn barhaus 2017–21</p> <hr/> <p>Ffocws cychwynnol ar ymchwil i lywio ymagweddau a dulliau addysgu iaith (2017–18) a throchi iaith (2017–19)</p>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau bod pob Maes Dysgu a Phrofiad yn cynnwys y dimensiwn Cymreig a Chymraeg er mwyn rhoi cyfle i ddysgwyr ddatblygu eu dealltwriaeth o Gymru a'r Gymraeg a'i pherthnasedd i'w bywyd bob dydd yn y Gymru gyfoes.</li> </ul>	<p>Y cwricwlwm terfynol ar gael o Ionawr 2020</p>

## Cyfoethogi a phrofiadau yn y Gymraeg

Rydym yn cydnabod na all addysg yn unig greu siaradwyr Cymraeg hyderus. Mae angen cyfleoedd ar blant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg mewn nifer o gyd-destunau i gyfoethogi eu dysgu a'u hymwybyddiaeth o'r Gymraeg fel iaith bob dydd.

Yn *Dyfodol Llwyddiannus*, mae'r Athro Donaldson yn pwysleisio pwysigrwydd profiadau addysgol fel rhan annatod o'r cwricwlwm, i ehangu gorwelion plant a phobl ifanc, tanio eu dychymyg a hybu mwynhad mewn dysgu. Mae Strategaeth Cymraeg 2050 hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd ymgorffori arferion defnydd iaith o oedran cynnar fel rhan berthnasol o fywyd bob dydd.

Er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio eu Cymraeg mewn cyd-destunau amrywiol ac ymgorffori eu patrymau defnydd iaith o oedran cynnar, byddwn yn:

- gweithredu'r argymhelliad yn *Dyfodol Llwyddiannus* i sefydlu cysylltiadau systematig rhwng ysgolion ac asiantaethau allanol sy'n gallu rhoi cymorth ar gyfer addysgu, dysgu a darparu adnoddau yn Gymraeg
- parhau i weithio gyda chonsortia rhanbarthol ac ysgolion i ddatblygu dull ysgol gyfan o gynllunio a chynnig cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio eu Cymraeg mewn cyd-destunau amrywiol a datblygu eu hymdeimlad o hunaniaeth Gymreig

- gweithio gyda Chyngor Celfyddydau Cymru ar brosiectau addysgu creadigol, gan gynnwys Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol, i ddarparu cyfleoedd i ddatblygu darpariaeth arloesol a phenodol sy'n gysylltiedig â'r iaith Gymraeg
- darparu rhaglen hyfforddiant i ymarferwyr er mwyn rhoi'r sgiliau iddynt drafod defnydd iaith a meithrin agwedd gadarnhaol at yr iaith.

Hyd yma, rydym wedi:

- cyflwyno'r Siarter Iaith Gymraeg ym mhob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yng Nghymru fel ffordd o gynllunio'n strategol i ddatblygu defnydd plant a phobl ifanc o'r iaith
- cefnogi'r addasiad o'r Siarter Iaith Gymraeg ar gyfer ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg (Cymraeg Campus)
- cyhoeddi pecyn cymorth ar gyfer ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg i'w ddefnyddio i ymgorffori arferion pobl ifanc o ran defnydd iaith
- cefnogi ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg i ddarparu cyfleoedd anffurfiol i ddefnyddio'r iaith a chyfleoedd dysgu Cymraeg dwys drwy'r Urdd
- gweithio gyda Chyngor Celfyddydau Cymru i gefnogi ystod o brosiectau sy'n canolbwyntio ar ddefnyddio dulliau creadigol yn y Gymraeg a sut gall hyn gael effaith ar ddatblygu diddordeb a chyrhaeddiad y dysgwyr wrth ddarllen.



### I roi ein cynllun ar waith, byddwn yn gwneud y canlynol.

<ul style="list-style-type: none"> <li>• Adeiladu ar y Siarter Iaith Gymraeg a'r Pecyn Cymorth Defnydd Iaith i ddatblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer pob lleoliad ysgol i ddarparu sail ysgol gyfan ar gyfer cynllunio a chynnig cyfleoedd i gynyddu defnydd ehangach dysgwyr o'r Gymraeg a gwreiddio arferion defnydd iaith.</li> </ul>	<p>Fframwaith drafft ar gael erbyn Ebrill 2018</p> <p>Cyflwyno'r fframwaith mewn ysgolion o Fedi 2018</p>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymgysylltu â rhanddeiliaid i weithio gydag ysgolion i ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr gyfoethogi eu profiad o ddysgu Cymraeg y tu allan i leoliadau ysgol.</li> </ul>	<p>I'w gynllunio a'i gyflawni fel rhan o'r broses o gyflwyno'r fframwaith cenedlaethol</p>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygu rhaglen hyfforddiant i ymarferwyr i'w galluogi i drafod defnydd iaith a meithrin agwedd gadarnhaol at yr iaith ymhlith dysgwyr o bob oedran.</li> </ul>	<p>O Ebrill 2018</p>
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Comisiynu ymchwil i ddeall agweddau plant a phobl ifanc at yr iaith fel sail i ddatblygiad parhaus y Siarter Iaith Gymraeg.</li> </ul>	<p>O Ebrill 2018</p>



## Cynllunio'r gweithlu, dysgu proffesiynol ac arweinyddiaeth

Ni ellir cyflawni ein cwricwlwm newydd heb weithlu addysg uchelgeisiol a gefnogir yn dda. Byddwn yn helpu arweinwyr ac ymarferwyr yng Nghymru i fod yn ddysgwyr proffesiynol gydol oes sy'n parhau i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg a meddu ar yr wybodaeth a'r arbenigedd i ddarparu'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Gymraeg fel pwnc. Byddwn hefyd yn paratoi'r gweithlu i ddatblygu gwerthfawrogiad ein plant a'n pobl ifanc o'r Gymraeg, ei llenyddiaeth a'i hanes, a hefyd ei pherthnasedd i'w bywyd bob dydd yn y Gymru gyfoes.

Byddwn yn cydweithio â phartneriaid allweddol er mwyn:

- sicrhau bod gennym ddealltwriaeth glir o sgiliau Cymraeg y gweithlu a, lle bo'n berthnasol, eu gallu i addysgu'r Gymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio'r gweithlu, yn seiliedig ar ddata cadarn
- galluogi pob ymarferydd, gan gynnwys athrawon cyflenwi, i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg yn barhaus yn unol â'r disgwyliad yn y safonau proffesiynol newydd
- darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol i ddatblygu addysgu a dysgu effeithiol ar gyfer y Gymraeg fel pwnc a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, yn seiliedig ar dystiolaeth ac arfer da

- sicrhau bod y Gymraeg yn rhan annatod o gynlluniau ehangach y llywodraeth i ddatblygu'r gweithlu addysg yn y dyfodol drwy addysg gychwynol i athrawon a hyfforddiant i staff cefnogi
- creu cyflenwad digonol o arweinwyr ar gyfer y sector cyfrwng Cymraeg
- sicrhau bod pob arweinydd addysg yn pwysleisio'n gyson y nod o hyrwyddo diwylliant Cymru a'r Gymraeg o fewn ethos yr ysgol ac wrth iddynt ddatblygu'r ysgol fel sefydliad sy'n dysgu
- sicrhau bod y gwaith o ddatblygu'r gweithlu a dysgu proffesiynol ar gael yn y Gymraeg ac wedi ei lywio gan dystiolaeth.

Hyd yma, rydym wedi:

- casglu gwybodaeth am sgiliau Cymraeg ymarferwyr drwy arolwg Cyngor y Gweithlu Addysg a Chyfrifiad Ysgolion Blyneddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) i lywio ein gwaith o gynllunio'r gweithlu
- cyflwyno Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth newydd sy'n cynnwys disgwyliad i ymarferwyr ddatblygu eu gwybodaeth a'u defnydd o'r Gymraeg, ynghyd ag ymestyn sgiliau a chymhwysedd iaith Gymraeg y dysgwyr
- cyhoeddi safonau arweinyddiaeth (i'w mabwysiadu gan arweinwyr ysgol erbyn mis Medi 2018) sydd yn cynnwys cyfrifoldeb i weithredu fel eiriolwr drwy hyrwyddo ac ymestyn yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymraeg ar draws yr ysgol

- cydweithio â'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) i gymryd rhan mewn prosiect ymchwil rhyngwladol sy'n canolbwyntio ar 'Ddatblygu Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu', gan adeiladu ar fodolau llwyddiannus o ddatblygiad proffesiynol; bydd hyn yn cefnogi cam tuag at rwydwaith cenedlaethol o sefydliadau sy'n dysgu
- ehangu'r Cynllun Sabothol iaith Gymraeg i ddarparu cyfleoedd i ymarferwyr ledled Cymru gael mynediad i hyfforddiant iaith Gymraeg dwys
- comisiynu gwerthusiad o raglenni sy'n cefnogi'r Gymraeg o fewn addysg gychwynol i athrawon i lywio darpariaeth newydd o Fedi 2019
- neilltuo cyllid i gynnal ymgyrch i ddenu mwy o ddarpar athrawon i addysgu'r Gymraeg a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.



### I roi ein cynllun ar waith, byddwn yn gwneud y canlynol.

<ul style="list-style-type: none"> <li>Gweithio gyda chonsortia rhanbarthol a Chyngor y Gweithlu Addysg, gan ddefnyddio'r holl ffynonellau data sydd ar gael, i greu darlun llawn o sgiliau Cymraeg ymarferwyr a'u gallu i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.</li> </ul>	Erbyn Ebrill 2018
<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynnwys cwestiynau am sgiliau Cymraeg ymarferwyr a'u gallu i addysgu a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yng nghasgliad data gweithlu ysgolion o 2019 ymlaen, yn unol â'r rheoliadau.</li> </ul>	Y gwaith casglu i ddechrau ym mlwyddyn academaidd 2019/20
<ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu'r gwaith o gynllunio'r gweithlu i gynyddu nifer yr athrawon a staff cymorth Cymraeg a chyfrwng Cymraeg erbyn 2021 i gynnwys rôl addysg gychwynnol i athrawon, Rhaglen Addysg i Raddedigion, cymelldaliadau, athrawon cyflenwi a dysgu proffesiynol.</li> </ul>	Erbyn Ebrill 2018
<ul style="list-style-type: none"> <li>Gweithio gydag ysgolion, consortia rhanbarthol ac addysg uwch er mwyn sicrhau ein bod yn cynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio'r Gymraeg a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer Safon Uwch er mwyn sicrhau bod digon o athrawon ar gael ar gyfer y sector cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol.</li> </ul>	I'w roi ar waith o Fedi 2018
<ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau bod rhaglenni addysg gychwynnol i athrawon yn y dyfodol yn meithrin gwerthfawrogiad athrawon dan hyfforddiant o'r Gymraeg ac yn darparu cyfleoedd iddynt ddatblygu eu hyfedredd yn y Gymraeg a'u harbenigedd i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg fel rhan o'u hyfforddiant cychwynnol.</li> </ul>	O Fedi 2019 ymlaen

<ul style="list-style-type: none"> <li>Gweithio gyda chonsortia rhanbarthol i ddatblygu a gweithredu rhaglen dysgu proffesiynol, gan gynnwys y Cynllun Sabothol iaith Gymraeg, er mwyn sicrhau bod athrawon, athrawon cyflenwi a staff cymorth yn meddu ar y sgiliau Cymraeg a'r arbenigedd ym maes addysgu'r Gymraeg a chyfrwng Cymraeg.</li> </ul>	O Ebrill 2018
<ul style="list-style-type: none"> <li>Gwerthuso traweffaith y Cynllun Sabothol iaith Gymraeg.</li> </ul>	I gychwyn erbyn Ebrill 2018
<ul style="list-style-type: none"> <li>Gweithio gyda'r Academi Arweinyddiaeth Addysgol Genedlaethol a chonsortia rhanbarthol i roi'r sgiliau i arweinwyr gynllunio datblygiad y Gymraeg yn strategol o fewn diwylliant o ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu.</li> </ul>	<p>Sefydlu'r Academi Arweinyddiaeth Addysgol Genedlaethol yn ystod gwanwyn 2018</p> <hr/> <p>Datblygiad y Gymraeg i fod yn rhan annatod o'r ddarpariaeth arweinyddiaeth ardystiedig o Fedi 2018 ymlaen</p>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Gweithio gyda'r Academi Arweinyddiaeth Addysgol Genedlaethol, consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod digon o arweinwyr cyfrwng Cymraeg ar gael yn y dyfodol ac er mwyn targedu adnoddau yn effeithiol.</li> </ul>	Bydd Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP) diwygiedig ar gael o Fedi 2018 a fydd yn gyson â'r safonau arweinyddiaeth newydd
<ul style="list-style-type: none"> <li>Gweithio gydag ymarferwyr a rhanddeiliaid i ddatblygu safonau proffesiynol ar gyfer cefnogi addysgu sydd wedi'u halinio â'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth o ran y disgwyliadau ynghylch y Gymraeg.</li> </ul>	Safonau proffesiynol ar gyfer cefnogi addysgu ar gael erbyn Medi 2018

## Cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg

Ni fydd newidiadau i'r cwricwlwm yn unig yn creu ein siaradwyr Cymraeg yn y dyfodol. Un o'r newidiadau trawsnewidiol allweddol yn *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* yw cynyddu nifer y dysgwyr mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg. Bydd angen cynllunio ar gyfer y cynnydd hwn ar y cyd â chynllunio ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm iaith Gymraeg newydd. Mae angen i ni ystyried sut gall y daith y mae plant a phobl ifanc yn ei dilyn ar hyd y continwwm ieithoedd yn gallu cael ei ategu trwy ddefnyddio mwy o Gymraeg fel cyfrwng addysgu. Bydd fforymau addysg Gymraeg awdurdodau lleol yn parhau i fod yn allweddol i'r dull cydlynol o gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg ac mae angen i bob rhanddeiliad sy'n ymwneud ag addysgu ein pobl ifanc ymgysylltu a bod yn rhan o'r daith hon.

Byddwn yn cydweithio â phartneriaid allweddol er mwyn:

- adolygu'r ddeddfwriaeth sy'n sail i gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg yn strategol drwy Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg
- adolygu a hwyluso'r broses o gynyddu cyfran yr addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion ac ystyried sut y gellir defnyddio technoleg i'r perwyl hwn
- sicrhau defnydd effeithiol o'r Rhaglen Gyfalaf i sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif fel ffordd o gynyddu capasiti mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg
- atgyfnerthu ac ehangu'r cyfleoedd i ddysgwyr gael gafael ar addysg cyfrwng Cymraeg, boed yn y sector cynradd neu uwchradd, drwy ddarpariaeth drochi neu drochi hwyr.

Hyd yma, rydym wedi:

- cyhoeddi adolygiad annibynnol o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol
- atgyfnerthu'r bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol gyda thîm penodedig sydd â'r gwaith o helpu awdurdodau lleol i ddiwygio, cefnogi a herio Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg
- cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r fforymau Cymraeg mewn addysg lleol ymhellach drwy dynnu sylw at eu rôl hollbwysig ym maes cynllunio cydlynus
- annog awdurdodau lleol i gysoni eu cynlluniau buddsoddi cyfalaf ar gyfer ehangu lleoedd ysgol cyfrwng Cymraeg â'u Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg wrth iddynt ddatblygu eu cynigion Rhaglen Gyfalaf i sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif.

**I roi ein cynllun ar waith, byddwn yn gwneud y canlynol.**

<ul style="list-style-type: none"> <li>Sefydlu bwrdd annibynnol i roi cyngor ar newidiadau i brosesau cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg.</li> </ul>	Ionawr 2018
<ul style="list-style-type: none"> <li>Adolygu'r ddeddfwriaeth gyfredol sy'n sail i'r rheoliadau a'r canllawiau ar gyfer Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg.</li> </ul>	Gwanwyn 2018
<ul style="list-style-type: none"> <li>Ystyried opsiynau i ddatblygu modelau amgen o ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys drwy fodelau dysgu ar-lein, o bell neu ddigidol.</li> </ul>	Gwanwyn 2018
<ul style="list-style-type: none"> <li>Adolygu'r broses o gynyddu cyfran yr addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion.</li> </ul>	Erbyn gwanwyn 2019
<ul style="list-style-type: none"> <li>Adolygu diffiniadau a chategoriâu'r ysgolion yng Nghymru yn ôl yr iaith a ddefnyddir fel y cyfrwng addysgu.</li> </ul>	Erbyn gwanwyn 2019
<ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau bod cynigion Rhaglen Gyfalaf i sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif yn cynnwys cyfleoedd i gynyddu nifer y lleoedd ysgol cyfrwng Cymraeg.</li> </ul>	Yn barhaus 2017–21
<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynyddu'r cyfleoedd i ddysgwyr gael addysg cyfrwng Cymraeg drwy ddarpariaeth benodol.</li> </ul>	Yn barhaus 2017–21



## Rhagoriaeth, tegwch a lles

Rhaid i ni sicrhau y gall pob dysgwr gael mynediad cyfartal i addysg cyfrwng Cymraeg a phrofi'r cyfleoedd gorau i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Fel y nodwyd yn *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun gweithredu 2017–21*, mae tegwch yn golygu bod angen i ni sicrhau bod y system, ar lefel ysgolion, ar lefel leol ac ar lefel genedlaethol, yn ystyried yr heriau unigryw sy'n wynebu unigolion neu grwpiau o ddysgwyr, ac yn ymateb i'r heriau hynny.

Drwy weithio gydag awdurdodau lleol, byrddau iechyd, consortia rhanbarthol ac ystod o randdeiliaid, rhaid i ni:

- sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried yn gyntaf wrth gynllunio a darparu gwasanaethau i gefnogi ein dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)
- sicrhau bod ymarferwyr a'r gweithlu addysg ehangach yn gallu cael mynediad i gymorth ac adnoddau yn y Gymraeg er mwyn helpu ein dysgwyr mwyaf agored i niwed a'r rhai mwyaf talentog i gyflawni eu potensial
- sicrhau bod datblygiad a darpariaeth Gymraeg yn cael eu hystyried wrth gynllunio a darparu gwaith ieuenctid, boed hynny'n fynediad agored neu wedi ei dargedu, fel bod dysgwyr yn gallu manteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio a datblygu sgiliau Cymraeg y tu allan i'r ysgol.

Hyd yma, rydym wedi:

- ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynllunio eu darpariaeth o gymorth ADY fel rhan o'u Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg
- comisiynu adnoddau addysgu a dysgu yn y Gymraeg i gefnogi ein dysgwyr sydd ag ADY
- cynnwys cynigion yn y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) i atgyfnerthu'r modd y darperir cymorth yn y Gymraeg yn y dyfodol, gan symud tuag at system sydd â chyfartaledd rhwng gwasanaethau yn y Gymraeg a'r Saesneg
- comisiynu ymchwil i lywio gwaith cynllunio ar gyfer y gweithlu sy'n cefnogi ein dysgwyr sydd ag ADY, ac sy'n cynnwys argaeledd y cymorth sydd ar gael yn y Gymraeg
- cydnabod cyfraniad darpariaeth gwaith ieuenctid i ddatblygiad y Gymraeg drwy ein Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol.



### I roi ein cynllun ar waith, byddwn yn gwneud y canlynol.


<ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygu a darparu cefnogaeth i'n dysgwyr mwyaf abl a'r rheini mewn unedau cyfeirio disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg, y Saesneg, ac yn ddwyieithog.</li> </ul>	Gwanwyn 2018
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid Cenedlaethol wedi ei gadeirio'n annibynnol i roi cyngor strategol ar y ffordd ymlaen ar gyfer gwasanaethau cymorth ieuenctid yng Nghymru, gan gynnwys drwy gyfrwng y Gymraeg.</li> </ul>	Gwanwyn 2018
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ddatblygu cyfleoedd i rieni/gofalwyr sydd yn addysgu eu plant yn y cartref i ddysgu Cymraeg.</li> </ul>	Medi 2018
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweithio gyda phartneriaid i ddeall pa adnoddau sydd ar gael ac sy'n cael eu defnyddio i gefnogi dysgwyr sydd ag ADY yn yr ystafell ddosbarth, a chomisiynu ymchwil i adnabod yr angen am offerynnau sgrinio, asesu a diagnostig iaith Gymraeg.</li> </ul>	Mapio adnoddau erbyn diwedd 2018
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn amodol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn pasio'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), gweithio gyda phartneriaid i weithredu'r system ADY newydd, gan gynnwys drwy ddatblygu Côd ADY newydd, a sicrhau bod yr agweddau ar y Gymraeg yn glir ac yn hollol integredig.</li> </ul>	O 2018
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Drwy'r arweinwyr trawsnewid ADY, adnabod cyfleoedd i gefnogi'r gwaith o gynllunio strategol rhanbarthol er mwyn cynyddu capasiti mewn perthynas â'r ddarpariaeth ADY, gan gynnwys digon o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.</li> </ul>	Parhaus 2017–21





# Amserlen y Gymraeg mewn addysg

	2017	2018	2019
Cwricwlwm, asesu ac addysgeg	Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu i ddatblygu un continwmm ar gyfer ieithoedd, i gynnwys y Gymraeg	Siarter Iaith Gymraeg i'w gyflwyno ym mhob ysgol	Continwmm ieithoedd ar gael am adborth
	Cyfoethogi a phrofiadau yn y Gymraeg	Datblygu sail ymchwil gadarn yn seiliedig ar addysgeg effeithiol ar gyfer addysgu a dysgu'r Gymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg	
Cynllunio'r gweithlu, dysgu proffesiynol ac arweinyddiaeth	Cynllunio'r gweithlu ar gyfer ymarferwyr iaith Gymraeg a chyfrwng Cymraeg		
	Gwella recriwtio ymarferwyr iaith Gymraeg a chyfrwng Cymraeg a'r cyflenwad o arweinwyr cyfrwng Cymraeg		
Cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg	Sefydlu bwrdd annibynnol i gynghori ar newidiadau i Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg	Adolygu'r ddeddfwriaeth sy'n cefnogi Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg	
		Adolygu diffiniadau a chategorïau ysgolion yn ôl yr iaith a ddefnyddir fel y cyfrwng addysgu	
Rhagoriaeth, tegwch a lles		Adolygu'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi dysgwyr ag ADY	



## Cyfathrebu ac ymgysylltu

---

Bydd cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu cynhwysfawr yn sail i'n holl amcanion er mwyn sicrhau bod pob rhanddeiliad yn cael ei gynnwys wrth ddatblygu'r Gymraeg mewn addysg. Y nod yw ymgysylltu â rhanddeiliaid, rhieni/gofalwyr a dysgwyr i fod yn rhan o'r daith gyffrous hon ar gyfer addysg Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghymru.

Ein nod yw cefnogi rhieni/gofalwyr pan fyddant yn dewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plentyn ac ysbrydoli pobl ifanc i barhau i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, drwy ddangos cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn y gwaith ac fel rhan o fywyd bob dydd. Byddwn yn datblygu ein gweithgareddau er mwyn sicrhau bod dysgwyr, ni waeth ble maent ar y daith dysgu Cymraeg, yn deall pam bod yr iaith yn rhan bwysig o'n system addysg.

Mae hon yn adeg gyffrous i addysg yng Nghymru a dyfodol y Gymraeg, a byddwn yn dangos hyn drwy ein hymgyrchoedd a'n gwaith ymgysylltu gan sicrhau bod pobl gyda phrofiad o ddysgu'r iaith wrth wraidd ein cyfathrebu.

### Cynllunio

Erbyn mis Gorffennaf 2018, byddwn yn comisiynu ymarferion deall cynulleidfaoedd a mapio. Byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid, y gweithlu addysg, rhieni/gofalwyr, dysgwyr a'r cyhoedd yn fwy cyffredinol. Bydd hyn yn llunio'r negeseuon a'r gweithgarwch cyfathrebu fel rhan o un cynllun cydlynol.

### Gweithredu

O fis Medi 2018, byddwn yn dechrau gweithredu'r cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu, a fydd yn cynnwys nifer o feysydd ac ymgyrchoedd penodol a fydd yn ceisio:

- codi ymwybyddiaeth o addysg cyfrwng Cymraeg ac iaith Gymraeg
- rhoi gwybodaeth i rhieni/gofalwyr am y ffordd y gallant gefnogi eu plant a chyfleoedd iddynt ddysgu Cymraeg
- recriwtio mwy o ddarpar athrawon i'r sector cyfrwng Cymraeg
- cynyddu nifer y dysgwyr sy'n parhau i astudio'r Gymraeg fel pwnc
- cynnwys dysgwyr a rhieni/gofalwyr yn y newidiadau i'r cwricwlwm iaith Gymraeg
- codi ymwybyddiaeth o adnoddau addysgu a dysgu iaith Gymraeg
- codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith mewn cyd-destunau bob dydd, gan gynnwys ar draws llwyfannau digidol ac mewn cyflogaeth yn y dyfodol.



## Fframwaith gwerthuso ac atebolrwydd ar gyfer gwella

---

Fel y nodwyd yn *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun gweithredu 2017–21*, byddwn yn sefydlu fframwaith gwerthuso ac atebolrwydd adeiladol a chadarn, a fydd yn cefnogi'r nod o wireddu pedwar diben y cwricwlwm newydd. Byddwn yn defnyddio'r fframwaith hwn i asesu a gwerthuso llwyddiant cynllun gweithredu y Gymraeg mewn addysg ar draws y system, gan annog pob partner i chwarae ei ran lawn wrth sicrhau'r gorau i'n dysgwyr a'n hathrawon ym mhob lleoliad.

I asesu cynnydd yn y maes hwn, byddwn yn:

- casglu tystiolaeth ar draws pob un o'r tair haen cynllunio ar gyfer gwella'r Gymraeg mewn addysg drwy fesurau cytûn
- monitro sut mae ysgolion a phartneriaid yng nghyd-destun y Gymraeg mewn addysg yn cydweithio
- adolygu sut y caiff tystiolaeth ei defnyddio i gefnogi addysgu a dysgu'r Gymraeg a chyfrwng Gymraeg yn effeithiol
- parhau i fod yn agored i gyngor allanol ac arfer gorau rhyngwladol ar draws y system gyfan yng nghyd-destun y Gymraeg mewn addysg.

Bydd cyflawni'r cynllun gweithredu hwn yn llwyddiannus yn arwain at nifer o ddeilliannau cadarnhaol i ddysgwyr ac yn sicrhau system addysg gydlynol sydd â'r gallu i barhau i ddatblygu yn y tymor hwy.

### Hyder pobl ifanc, rhieni/gofalwyr a'r gymuned addysg

- Siaradwyr Gymraeg ifanc hyderus sydd:
  - yn gallu defnyddio'r iaith mewn gwahanol ffurfiau a chyd-destunau ac sydd â dealltwriaeth gadarn o Gymru, ei llenyddiaeth, ei diwylliant a'i hanes
  - yn meddu ar ymwybyddiaeth ddyfnach o werth dysgu'r Gymraeg, gwerthfawrogiad o ddwyieithrwydd a'r manteision ehangach a ddaw yn sgil dysgu ieithoedd, yn enwedig ym meysydd aml-lythrennedd a datblygiad gwybyddol
  - yn mwynhau dysgu'r Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth a defnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth
  - ag amrywiaeth o adnoddau dwyieithog i ategu eu dysgu ac sy'n gallu ennill cymwysterau priodol a chael cydnabyddiaeth am eu cynnydd wrth ddysgu'r Gymraeg.



- Rhieni/gofalwyr a chymuned addysg sydd yn:
  - deall gwerth dysgu'r Gymraeg a dwyieithrwydd, a phwysigrwydd y Gymraeg fel sgil ac fel sail ar gyfer ehangu gorwelion diwylliannol ac ieithyddol
  - teimlo bod y system yn eu cefnogi yng nghyd-destun adnoddau dwyieithog i gefnogi dysgu eu plant ym mhob lleoliad.
- Gwneir defnydd da o dystiolaeth ac ymchwil ar draws y system er mwyn sicrhau addysgu a chynllunio effeithiol.
- Mae awdurdodau lleol yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer lleoedd ysgol cyfrwng Cymraeg.

### Cydlyniaeth yn y system

#### Capasiti yn y system

- Defnyddir data ar sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu a'r gallu i addysgu Cymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg i lywio'r gwaith o gynllunio'r gweithlu er mwyn cynyddu capasiti.
- Mae cyfleoedd dysgu proffesiynol a chyfleoedd cydweithredu ar gael ar gyfer y gweithlu cyfan er mwyn sicrhau y gallant barhau i ddatblygu eu sgiliau.
- Mae digon o athrawon ar gael i addysgu'r Gymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg a rhai mewn rolau ADY arbenigol.
- Mae arweinwyr yn cynllunio'n strategol i ddatblygu'r Gymraeg ar draws yr ysgol, gan gynnwys sgiliau'r gweithlu a sicrhau ffocws canolog i hyrwyddo ethos cadarnhaol ar gyfer yr iaith, diwylliant a gwerth dwyieithrwydd yng nghyd-destun y pedwar diben craidd.
- Mae athrawon yn myfyrio ar eu sgiliau iaith Gymraeg, ac yn eu datblygu, ac yn seilio eu haddysgu ar addysgeg effeithiol.
- Mae rôl glir i ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu wrth ddatblygu a gwella lle'r Gymraeg fel pwnc a chyfrwng addysgu mewn system ysgol gydweithredol.
- Rolau clir i gonsortia rhanbarthol, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru mewn system hunanwella i ddatblygu a gwella addysgu a dysgu'r Gymraeg a chynllunio strategol yng nghyd-destun y Gymraeg mewn addysg.
- Cyswllt clir â Strategaeth Cymraeg 2050 wrth i ni weithio'n gydlynol ar draws y system i gyflawni miliwn o siaradwyr erbyn 2050.
- Defnyddir naratif cyffredin ynghylch buddiannau a phwysigrwydd galluogi pob dysgwr i ddod yn gynyddol ddwyieithog.

## Targedau a dangosyddion

### Targed cyffredinol: Miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050

	2011 >	2017 >	2021 >
Taflwybr: Nifer y siaradwyr Cymraeg	562,000	570,000	600,000

### Sut y bydd y system addysg yn cyfrannu at y targed cyffredinol?

	2017 >	2021 >
Cynyddu cyfran y dysgwyr sy'n gadael yr ysgol ac sy'n gallu siarad Cymraeg		Cyflwyno cwricwlwm newydd o 2022
Cynyddu cyfran y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg	7,700* (22%) *data 2015/16	8,400 (24%)
	Wedi'i seilio ar blant saith mlwydd oed a aseswyd yn Gymraeg fel iaith gyntaf.	

	2017 >	2021 >
<b>Cynyddu nifer:</b>		
Yr athrawon cynradd sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg	2,900*	3,100
Yr athrawon uwchradd sy'n addysgu'r Gymraeg fel pwnc	500	600
Yr athrawon uwchradd sy'n addysgu pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg	1,800 * data 2015/16	2,200

2026	2031	2036	2041	2046	2050
630,000	680,000	750,000	830,000	920,000	1,000,000

2026	2031	2036	2041	2046	2050
	Y garfan gyntaf yn gorffen y cwricwlwm newydd lle mae 55% o'r holl ddysgwyr ar ddiwedd y cyfnod o addysg statudol yn gallu siarad Cymraeg (tua 19,000 o ddysgwyr bob blwyddyn)				Mae 70% o'r holl ddysgwyr ar ddiwedd y cyfnod o addysg statudol yn gallu siarad Cymraeg (tua 25,000)
	Cynnydd graddol tuag at 70% yn 2050				
8,400 (24%)	Tua 10,500 ym mhob grŵp blwyddyn (30%)				Tua 14,000 ym mhob grŵp blwyddyn (40%)
	Cynnydd graddol tuag at 40% yn 2050				
Mae'r targedau wedi'u seilio ar y rhagdybiaeth y bydd nifer y plant ym mhob grŵp blwyddyn yn parhau'n gyson i fod tua 35,000 yn ystod y cyfnod hwn.					

2026	2031	2036	2041	2046	2050
3,100			3,900		5,200
600			900		1,200
2,200			3,200		4,200

Mae Strategaeth Cymraeg 2050 yn gosod targedau uchelgeisiol i gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Mae'r tabl ar dudalennau 40 a 41 yn nodi sut bydd y system addysg yn cyfrannu at y nod cyffredinol, ac yn cynnwys targedau ar gyfer nifer y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg a nifer yr athrawon sydd eu hangen i addysgu'r Gymraeg fel pwnc a thrwy gyfrwng y Gymraeg.

Er mwyn monitro gweithrediad y cynllun gweithredu hwn, byddwn hefyd yn defnyddio cyfres o ddangosyddion.

### Dangosydd 1: Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

#### Canran y dysgwyr Blwyddyn 2 sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg (iaith gyntaf)

**Gwaelodlin 2016/17**  
22.4%

**Targed 2021**  
24.0%

*Noder: Yn seiliedig ar gasgliad data cenedlaethol asesiadau athrawon.*

Rhwng 2017 a 2021, rhagwelir y bydd y patrwm presennol o ran y ganran o ddysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn aros yn eithaf cyson gan fod y dysgwyr eisoes yn y system. Fodd bynnag, yn ystod oes y cynllun gweithredu hwn, bydd disgwyl i awdurdodau lleol ddatblygu eu cynlluniau i amlinellu sut y byddant yn cynyddu'r ganran er mwyn cyrraedd y targed ar gyfer 2031.

### Dangosydd 2: Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd

#### Canran y dysgwyr Blwyddyn 9 sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg (iaith gyntaf)

**Gwaelodlin 2016/17**  
17.9%

**Targed 2021**  
21.0%

*Noder: Yn seiliedig ar gasgliad data cenedlaethol asesiadau athrawon.*

Fel gyda dangosydd 1, rhwng 2017 a 2021, ni ddisgwylir i ganran y dysgwyr Blwyddyn 9 sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg (iaith gyntaf) gynyddu'n sylweddol gan fod y dysgwyr a fydd ym Mlwyddyn 9 yn 2021 eisoes ym Mlwyddyn 5. Fodd bynnag, bydd disgwyl i awdurdodau lleol barhau i wella dilyniant ieithyddol rhwng y cynradd a'r uwchradd i sicrhau bod ein dysgwyr yn parhau i ddatblygu eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo i addysg uwchradd, a bod nifer y dysgwyr sydd yn newid i ddilyn y llwybr Cymraeg (ail iaith) yng Nghyfnod Allweddol 3 yn gostwng. Fel rhan o'r cwricwlwm newydd, bydd continwmm newydd ar gyfer ieithoedd yn cael ei ddatblygu, i gynnwys y Gymraeg, a bydd pob dysgwr yn dilyn yr un llwybr ar gyfer dysgu'r Gymraeg. Felly, yn y dyfodol, bydd disgwyl i ysgolion sicrhau bod dysgwyr yn parhau i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg wrth iddynt symud ymlaen.

### Dangosydd 3: Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg

Canran y dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer Cymraeg Iaith Gyntaf TGAU a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf dau gymhwyster Lefel 1/2 arall drwy gyfrwng y Gymraeg

**Gwaelodlin 2015/16**  
82.8%

**Targed 2021**  
86.0%

Canran y dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer Cymraeg Iaith Gyntaf TGAU a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf pum cymhwyster Lefel 1/2 arall drwy gyfrwng y Gymraeg

**Gwaelodlin 2015/16**  
57.6%

**Targed 2021**  
65.0%

*Noder: Yn seiliedig ar ddata CBAC. Nid yw'n cynnwys llenyddiaeth Gymraeg; mae TGAU cymhwysol a gwyddoniaeth ddwbl yn cyfrif fel dau bwnc; mae cyrsiau byr yn cyfrif fel un pwnc.*

Mae addysg cyfrwng Cymraeg yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu hyfedredd yn y Gymraeg, yn ogystal ag yn Saesneg, ac mae hwyluso defnydd o'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm yn gallu cynnig cyfleoedd i ddysgwyr ddod yn fwy dwyieithog.

### Dangosydd 4: Mwy o fyfyrwyr â sgiliau iaith uwch yn y Gymraeg

Cyfanswm cofrestriadau Cymraeg Iaith Gyntaf Safon Uwch fel canran o gofrestriadau Cymraeg Iaith Gyntaf TGAU ddwy flynedd yn gynharach

**Gwaelodlin 2015/16**  
4.9%

**Targed 2021**  
6.0%

Cyfanswm cofrestriadau Cymraeg Ail Iaith Safon Uwch fel canran o gofrestriadau Cymraeg Ail Iaith TGAU ddwy flynedd yn gynharach

**Gwaelodlin 2015/16**  
1.3%

**Targed 2021**  
3.0%

*Noder: Yn seiliedig ar ddata CBAC.*

Mae gweithredu'r cynllun gweithredu hwn yn llwyddiannus yn dibynnu ar gyflenwad digonol o raddedigion prifysgol yn y Gymraeg, o gronfa o ddysgwyr sydd wedi astudio Cymraeg Safon Uwch. Nod y dangosydd hwn felly yw atal ac, yn y pen draw, gwrthdroi'r duedd tuag i lawr yn nifer y dysgwyr sy'n astudio'r Gymraeg Safon Uwch yn y blynyddoedd diwethaf.

<b>Dangosydd 5: Mwy o athrawon yn addysgu'r Gymraeg neu'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg</b>	
<b>Nifer yr athrawon cynradd sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg</b>	
<b>Gwaelodlin 2015/16</b> 2,900	<b>Targed 2021</b> 3,100
<b>Nifer yr athrawon uwchradd sy'n addysgu'r Gymraeg fel pwnc</b>	
<b>Gwaelodlin 2015/16</b> 500	<b>Targed 2021</b> 600
<b>Nifer yr athrawon uwchradd sy'n addysgu pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg</b>	
<b>Gwaelodlin 2015/16</b> 1,800	<b>Targed 2021</b> 2,200

Noder: Yn seiliedig ar ddata Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD).

Os ydym i gynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, mae angen i ni sicrhau cyflenwad digonol o athrawon sy'n gallu addysgu'r Gymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg. Mae data presennol ar nifer y myfyrwyr sy'n gymwys i addysgu ar ôl cwblhau addysg gychwynnol i athrawon yn llwyddiannus fel a ganlyn.

	<b>2015/16</b>	
	<b>Nifer</b>	<b>%</b>
Myfyrwyr cymwysedig o gyrsiau addysg gychwynnol i athrawon cynradd yn gallu addysgu yn y Gymraeg	145	23
Myfyrwyr cymwysedig o gyrsiau addysg gychwynnol i athrawon uwchradd yn gallu addysgu'r Gymraeg	25	5
Myfyrwyr cymwysedig o gyrsiau addysg gychwynnol i athrawon uwchradd yn gallu addysgu yn y Gymraeg	55	15

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA).

Fodd bynnag, nid addysg gychwynnol i athrawon yw'r unig ffordd o sicrhau cyflenwad digonol o athrawon. Yn 2017/18, mae ugain o leoliadau athrawon graddedig mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod y llwybr hwn yn parhau i gynhyrchu athrawon ar gyfer y sector cyfrwng Cymraeg ac i wella sgiliau ein gweithlu presennol i'w galluogi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y dyfodol.

## Camau nesaf

---



Fel y nodwyd eisoes, mae hon yn agenda hirdymor lle mae galw am gynllunio gofalus er mwyn sicrhau darpariaeth gynaliadwy. Byddwn yn darparu'r arweinyddiaeth gyffredinol ar gyfer y datblygiadau, ond bydd hefyd angen i bob un o'n partneriaid gydweithio â ni wrth i ni symud ymlaen i gyflawni'r diwygiadau pwysig a hanfodol hyn.

Felly, byddwn yn sefydlu gweithgor o arbenigwyr o'r sector, yn ymgynghori â'n rhanddeiliaid allweddol, a byddwn yn monitro a gwerthuso'n barhaus ac ystyried arfer gorau rhyngwladol wrth symud ymlaen i weithredu.

Mae heriau o'n blaenau ond dros y pedair blynedd nesaf ein prif nod yw sicrhau bod yr arweinyddiaeth ofynnol, y capasiti a'r seilwaith i gyflawni'r newidiadau wedi'u gwreiddio er mwyn symud ymlaen gyda'r gwaith pwysig hwn ar gyfer cenedlaethau i ddod.